**RHYBUDD o Benderfyniadau Cyfarfod Y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol drwy Zoom ar ddydd Mawrth, 21 Gorffennaf 2026**

Cyhoeddir y Rhybudd hwn am 5:00pm ar ddydd Gwener, 24 Gorffennaf 2026. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm ar ddydd Gwener, 31 Gorffennaf 2026. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd yna gais dilys i'w galw i mewn) ar ddydd Llun, 3 Awst 2026.

**Presennol**: Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd), Neville Evans, Carwyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams a Robin Williams

**Hefyd yn bresennol**: Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Kenneth Hughes, R.Llewelyn Jones

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones

(10:00 y. b. tan 10:55 y. b.)

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **4 Cofnodion**<br>Amherthnasol |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2026 fel rhai cywir.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Amherthnasol** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Amherthnasol** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Amherthnasol** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Amherthnasol** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Amherthnasol** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **5 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith**<br>Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i** |

| | |
|---|---|
| | **diweddaru am y cyfnod Awst 2026 i Fawrth 2027 gyda'r newidiadau a nodwyd yn y cyfarfod.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **6 Alldro Cyfalaf 2025/26**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br>• **Nodi'r sefyllfa alldro drafft ar gyfer rhaglen gyfalaf 2025/26, yn amodol ar archwiliad.**<br>• **Cymeradwyo ychwanegu £3.704m at gyllideb 2025/26 o ganlyniad i dderbyn cyllid ychwanegol yn ystod y chwarter olaf, sy'n golygu bod y gyllideb derfynol ar gyfer 2025/26 yn £70.648m.**<br>• **Cymeradwyo dwyn ymlaen £8.949m o wariant, ynghyd â'r cyllid cysylltiedig i gyllideb 2026/27. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer 2026/27 yw £63.033m.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2025/26** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **7 Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai - Chwarter 4, 2025/26** |

| | |
|---|---|
| | Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd nodi'r canlynol –**<br><br>• **Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 4 2025/26.**<br>• **Yr alldro ar gyfer 2025/26.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Monitro perfformiad y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2025/26** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **8 Cyfrifon Terfynol Drafft 2025/26 a Defnydd o Arian Wrth Gefn a Balansau**<br>Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Nodi'r datganiadau ariannol drafft sydd heb eu harchwilio ym y flwyddyn ariannol 2025/26. (Mae'r Datganiad Cyfrifon Drafft llawn 2025/26 wedi'i gyhoeddi ar [https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Cyllid/Datganiad-or-cyfrifon/2025-2026/datganiad-o-cyfrifon-drafft-2025-i-2026.pdf?nocache=1](https://www.ynysmon.llyw.cymru/documents/Dogfennau-Cy/Cyllid/Datganiad-or-cyfrifon/2025-2026/datganiad-o-cyfrifon-drafft-2025-i-2026.pdf?nocache=1))**<br>• **Nodi sefyllfa balansau cyffredinol y Cyngor fel ar 31 Mawrth 2026, sef £19.037m.**<br>• **Nodi balans y cronfeydd wrth gefn clustnodedig o £24.434m a chymeradwyo creu £0.510m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig newydd.**<br>• **Cymeradwyo'n ffurfiol trosglwyddo** |

| | |
|---|---|
| | **£0.716m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol y Cyngor.**<br>• **Nodi balans cronfeydd wrth gefn ysgolion o £4.327m.**<br>• **Nodi balans cronfa'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT) o £3.063m.**<br>• **Cymeradwyo defnyddio £2.373m o falansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig at y dibenion a nodir yn Nhabl 9 yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Penderfynu ar ddefnydd o'r cronfeydd wrth gefn a balansau** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **9 Asesiad Perfformiad Panel (APP) - adroddiad terfynol ac ymateb y Cyngor**<br>Adroddiad gan y Prif Weithredwr |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd derbyn y Cynllun Gweithredu sy'n nodi ymateb y Cyngor i'r wyth argymhelliad, fel yr amlinellir yn Atodiad 2 yr adroddiad.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Ymateb i argymhellion yr Asesiad Panel Perfformiad yn unol â gofyniad Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |

| | |
|---|---|
| RHIF YR EITEM A'R PWNC | **10 Gwydnwch Croesi'r Fenai**<br>Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio |

| | |
|---|---|
| | a Datblygu Economaidd |
| PENDERFYNIAD | **Penderfynwyd –**<br><br>• **Codi ymwybyddiaeth a phroffil yr adroddiad trwy ei rannu â'r holl randdeiliaid rhanbarthol (sector cyhoeddus – Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a.y.y.b.) a phartneriaid yn y sector preifat.**<br>• **Rhannu'r adroddiad ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru Llywodraeth y DU a Gweinidog Cabinet dros Fenter, Cysylltedd ac Ynni Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth.**<br>• **Trefnu cyfarfod â'r gweinidogion uchod i drafod dull cydweithredol o fynd i'r afael â problem Croesi'r Fenai, cytuno ar strwythurau llywodraethu ac amserlen arfaethedig ar gyfer y camau nesaf, a sicrhau fod cynnydd yn digwydd.** |
| RHESWM AM Y PENDERFYNIAD | **Mynd i'r afael â materion yn ymwneud â gwydnwch Croesi'r Fenai.** |
| DATGANIAD O DDIDDORDEB | **Dim** |
| CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI? | **Dim** |
| YMGYNGHORI, OS O GWBL | **Fel y nodir yn adroddiad y Swyddog** |
| A OES MODD EI ALW I MEWN? | **Oes** |